

YMARFER 6 i'r Saesneg: Sylwadau

Dwi ddim yn gogydd proffesiynol, dwi ddim yn ddeietegydd ac yn sicr dwi ddim yn arbenigwr ar blant¹. Ond mae gen i blentyn bach i'w fwydo bob dydd², ac felly dwi'n deall yr heriau a'r pryderon sy'n dod yn sgil hynny³.

Dwi'n trio sicrhau bod fy mab yn blasu cynifer o fwydydd gwahanol â phosib, ac yn bwyta'n iach yn gyffredinol, felly dwi'n coginio prydau ffres mor aml ag y gallaf. Trwy wneud hynny, galla i reoli faint o lysiau mae'n eu bwyta, ac yn bwysicach fyth, faint o halen a siwgr sydd ym mhob pryd⁴. Gall prydau parod fod yn llawn halen a siwgr, ac er eu bod yn iawn yn achlysurol, does dim i guro prydau rydych wedi eu coginio eich hun⁵. Wrth gwrs, dydy hi ddim yn hawdd nac yn bosib coginio bwyd ffres bob amser, ac fel pob rhiant dwi'n estyn am fwydydd cyflym⁶ pan fo amser – ac amynedd – yn brin⁷.

Dwi'n credu bod cynnwys plant yn y broses o goginio yn bwysig dros ben. Gadewch iddyn nhw helpu hyd yn oed.⁸ Dwi'n gwybod bod hynny'n golygu mwy o lanast, a mwy o amser fel arfer, ond trwy fod yn rhan o'r broses byddan nhw'n llawer mwy awyddus i fwyta'r bwyd.

Mae fy mab wedi bod yn 'helpu' yn y gegin ers ei fod yn fabi. Dim ond gwyllo i ddechrau, ond gam wrth gam mae wedi dechrau pwyso a chymysgu, tywallt a thorri⁹ – erbyn hyn mae hyd yn oed yn defnyddio cyllell finiog, dan oruchwyliaeth.

[addasiad o ran o ragymadrodd Eiliw Gwawr i'r llyfr ryseitiai *Blasus*]

1. Cywair/ Ystyr

...ac yn sicr dwi ddim yn arbenigwr ar blant.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...I'm certainly no children's specialist.*
2. *...and for certain I'm no child expert.*
3. *...and I'm certainly not a specialist on children.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and I'm certainly not an expert on children.*
2. *...and I'm certainly not an authority on children.*

SYLW:

1. Nid oes yr un o'r cynigion aflwyddiannus wedi dewis yr

yadrodd priodol i drosi 'arbenigwr ar blant'. Maen nhw, yn hydrach, wedi mynd i faes meddygaeth neu bediatreg i gael cyfieithiad, ac mae hynny, wedyn, wedi ystumio'r ystyr. Sylwch yn arbennig ar gywair a chystrawen drwsgl Afl.2, ac ar y cyfieithiad slafaidd yn Afl.3.

2. Ystyr

Ond mae gen i blentyn bach i'w fwydo bob dydd...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *But I have a little one to feed every day*
2. *I do, however, have a toddler to feed on a daily basis*
3. *But I do have a small child that I have to feed on a daily basis*
4. *I do, however, have a small child who needs feeding every day*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *But I do have a small child to feed every day*
2. *But I do have a young child to feed every day*
3. *However, I do have a small child to feed every day*

SYLWADAU:

1. Mae *little one* yn ddewis rhy gyffredinol ac anffurfiol ar gyfer y darn, gan nad yw'n glir at beth y mae'n cyfeirio.
2. Cofiwch bob amser ystyried y darn cyfan wrth gyfieithu er mwyn cyfleu'r cyd-destun yn briodol. Er enghraifft, yn achos Afl.2 mae gweddill y darn yn dangos nad *toddler* sydd dan sylw.
3. Mae Afl.3 ac Afl.4 wedi cyflwyno elfen o orfodaeth anfoddog i'w cyfieithiadau, fel petai'r fam yn cael ei gorfodi i fwydo'i phlentyn yn groes i'w hewyllys. Weithiau, mae tuedd i ddefnyddio ymadroddion sy'n swnio'n dda lle byddai ymadrodd symlach yn llawer gwell yn y cyd-destun dan sylw. Cymharwch *on a daily basis* ag *every day*. Mae'r ddau yn gywir, wrth gwrs, ond mae'r ail yn gynnig llawer gwell yn y math yma o ddarn anffurfiol.

3. Cystrawen/ Ystyr

...ac felly dwi'n deall yr heriau a'r pryderon sy'n dod yn sgil hynny.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and so I understand the challenges and concerns that parenthood brings.*
2. *...and as such I do understand the trials and tribulations that come with that.*
3. *...and therefore I do understand what challenges and concerns come with that.*
4. *...and so I understand the challenges and concerns this can cause.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and so I understand the challenges and concerns involved.*

2. *...and so I understand the challenges and concerns which arise.*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 wedi cyflwyno ystyr rhy eang o lawer drwy gynnwys *parenthood*. Dweud y mae'r gwreiddiol fod yr awdur yn deall yr heriau a'r pryderon a ddaw yn sgil bwydo plentyn, nid yn sgil magu plant yn gyffredinol.

2. Mae Afl.2 wedi dewis ymadrodd amhriodol i gyfleu '**heriau a'r pryderon**', a thrwy hynny wedi cyflwyno naws ac ystyr sy'n anghydawns â chyd-destun y darn. Fel arfer, yng nghyd-destun profiadau anodd neu dreth ar amynedd y defnyddir *trials and tribulations*.

3. Mae'r gystrawen yn Afl.3 yn slafaidd ac nid yw'n llifo'n naturiol yn yr iaith darged. Cymharer yr enghraifft hon â'r enghreifftiau llwyddiannus.

4. Sylwch ar y defnydd o'r ferf *cause* yn Afl.4 sy'n amhriodol wrth gyfeirio at '*challenges and concerns*'.

4. **Cywair/
Ystyr**

...galla i reoli faint o lysiau mae'n eu bwyta, ac yn bwysicach fyth, faint o halen a siwgr sydd ym mhob pryd.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *I can make sure he gets his vegetables and, more importantly, what the salt and sugar content is in every meal.*
2. *I can control how much vegetables he eats, and more importantly, how much salt and sugar there is in every meal.*
3. *I can keep an eye on how much veg he eats and more importantly, the amount of salt and sugar each meal contains.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...I can control his intake of vegetables, and more importantly, how much salt and sugar is in each meal.*
2. *...I can control how many vegetables he eats, and more importantly, how much salt and sugar goes into every meal.*

SYLWADAU:

1. Er bod cywair y darn gwreiddiol yn lled anffurfiol, mae defnyddio ymadroddion fel *gets his vegetables*, a *how much veg he eats* yn ddewisiadau rhy llafar ar gyfer naws y darn.

2. At hynny, mae dwy o'r enghreifftiau aflwyddiannus wedi ystumio'r ystyr drwy beidio â chynnwys cyfieithiad o'r ferf '**rheoli**', sy'n allweddol yng nghymal cyntaf y frawddeg i allu cyflwyno ystyr yr ail gymal.

3. Sylwch hefyd ar y gwahaniaeth rhwng *how many* a *how much*. Mae '*how many*' yn cael ei ddefnyddio gydag enwau y mae modd eu cyfrif, e.e. '*How many people were at the meeting?*' Mae '*how much*' yn cael ei ddefnyddio wrth holi pris rhywbeth ac wrth gyfeirio at bethau nad oes modd eu cyfrif e.e. '*How much traffic was there on the M4?*' Felly, mae dweud *how much* wrth gyfeirio

at lysiau yn Afl.2 yn anghywir yn y cyd-destun hwn.

5. Cywair

...ac er eu bod yn iawn yn achlysurol, does dim i guro prydau rydych wedi eu coginio eich hun.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...serve a purpose on the odd occasion*
2. *...even though they can be ok sometimes*
3. *...there's nothing that beats home cooked meals you have prepared yourself*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...although they are fine occasionally, nothing beats meals you have cooked from scratch.*
2. *...whilst there's nothing wrong with eating them occasionally, nothing beats home-cooked food.*

SYLWADAU:

1. Nid yw *serve a purpose* i gyfleu 'iawn yn achlysurol' yn Afl.1 yn taro deuddeg yn y cyd-destun hwn.
2. Mae *ok* yn Afl.2 yn ddewis rhy llafar ar gyfer y math yma o destun. Ceisiwch beidio â'i ddefnyddio oni bai bod rhywun yn siarad, e.e. mewn drama.
3. Sylwch ar y gor-gyfieithu yn Afl.3 – *home cooked meals you have prepared yourself* - a chymharer hynny â naturioldeb y cyfieithiadau llwyddiannus.

6. Cywair/ Ystyr

...fel pob rhiant dwi'n estyn am fwydydd cyflym...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...I reach for the fast foods...*
2. *...I will eat fast foods...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *I will reach for something quick...*
2. *I reach for convenience foods...*

SYLWADAU:

1. Er bod '**bwydydd cyflym**' yn ddealladwy yng nghyd-destun y gwreiddiol, mae ystyr cwbl wahanol i *fast food*, sef bwyd fel sglodion neu fyrgyr o rywle fel McDonalds. Nid dyna yw ystyr y gwreiddiol, gan mai sôn am brydau parod y mae'r awdur, sef prydau y gallwch eu prynu a'u coginio gartref e.e. yn y microdon. Mae angen bod yn ofalus i beidio ag ystumio'r ystyr drwy ddewis ymadrodd amhriodol.
2. Nid yw Afl.2 yn gywir. Nid 'bwyta' a ddywedir ond '**estyn**' ac mae'n glir o'r cyd-destun mai sôn am baratoi bwyd ar gyfer ei phlentyn y mae'r awdur.

3. Mae'r enghraifft lwyddiannus gyntaf yn arbennig o dda ac yn ddewis naturiol yn yr iaith darged.

7. Cywair

...pan fo amser – ac amynedd – yn brin.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...when time and patience wear thin.*
2. *...when time – and patience – are lacking.*
3. *...when time – and patience – is scarce.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...when time – and patience – are in short supply.*
2. *...when time – and patience – are running out.*
3. *...when I'm short of time – and patience.*

SYLWADAU:

1. Pan fo mwy nag un peth a dim ond un ansoddair i ddisgrifio'r pethau hynny, mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod yr ansoddair yn berthnasol i'r ddau enw fel ei gilydd. Dyma'r gwendid yn Afl.1. Mae *wear thin* yn dda yn achos amynedd, ond nid yw'n briodol yn achos amser. Sylwch fel y mae'r ymadroddion ansoddeiriol yn y cynigion llwyddiannus yn gymwys i 'amser' ac i 'amynedd' fel ei gilydd. Sylwch hefyd fel y mae trefn y frawddeg wedi'i newid yn y drydedd enghraifft lwyddiannus, gan ychwanegu at naturioldeb y mynegiant.
2. Yn Afl.2 ac Afl.3 nid yw'r ansoddeiriau a ddewiswyd yn cyfleu'r ystyr yn briodol.
3. Sylwch hefyd ar y defnydd o'r rhagenw *is* yn Afl.3. Os oes mwy nag un enw, dylid defnyddio *are*, fel yn y ddwy enghraifft lwyddiannus gyntaf.

8. Cystrawen

Gadewch iddyn nhw helpu hyd yn oed.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Let them help even.*
2. *Even let them help out.*
3. *Allow them to help whatever.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *I'd even recommend letting them help.*
1. *...and you can even let them help.*

SYLW:

1. Yn y fersiwn wreiddiol, roedd y frawddeg fer hon yn gweithio o fewn cyd-destun a rhythm y paragraff. Ond roedd hi'n anodd cyfleu'r un naws yn Saesneg, ac roedd tuedd i gyfieithu'n slafaid. Dyna a ddigwyddodd yn yr enghreifftiau aflwyddiannus uchod. Mewn achos fel hwn, mae'n bwysig 'clywed' cywair y

darn i'w gyfieithu'n dda, fel yn yr enghraifft lwyddiannus gyntaf. Does dim o'i le ychwaith ar uno brawddegau heb aberthu'r ystyr, os yw hynny'n ychwanegu at naturioldeb, fel yn achos yr ail enghraifft lwyddiannus. Rhaid cofio mai cyfleu ystyr a neges y gwreiddiol yn gywir a naturiol yw'r dasg, nid trosi'n slafaidd a dienaidd.

9. Ystyr

...mae wedi dechrau pwysu a chymysgu, tywallt a thorri...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*weighing and mixing, decanting and chopping.*
2. ...*weigh and mix, spill and cut...*
3. ...*weighing and mixing, shredding and cutting...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*weighing and mixing, pouring and chopping*
2. ...*weighing and mixing, pouring and slicing*
3. ...*weigh and mix, pour and chop*

SYLWADAU:

1. Mae *decanting* yn Afl.1 yn ddewis rhyfedd i gyfieithu 'tywallt', ac o gofio mai am blentyn bach y sonnir yn y darn, mae'n rhyfeddach fyth. Yng nghyd-destun gwin neu hylif arall y defnyddir 'decant' yn bennaf, a hynny er mwyn tynnu'r gwaddod ohono.

2. Mae *spill* yn Afl.2 a *shredding* yn Afl.3 am 'tywallt' yn gamgyfieithiadau ac yn ystumio'r ystyr yn llwyr. Rhaid gwirio cyfieithiadau'n fanwl yn erbyn y gwreiddiol, gan brawfddarllen yn ofalus bob tro.

CYFFREDINOL

Cywirdeb

- *an* yn lle *and*
- *tastes variety of foods* yn lle *tastes a variety of foods*
- *wherever* yn lle *whenever*
- *reach for the fast foods*

SYLW:

Byddai gwirydd sillafu a gwirydd gramadegol wedi amlygu'r rhan fwyaf o'r mân wallau hyn, ynghyd â golygu gofalus.